

# Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mercher 3 Rhagfyr 2014.

Yn bresennol	Sefydliad
John Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi
Llio Johnson	Partneriaeth Môn a Gwynedd (Plant a Phobl Ifanc)
Phil Scott	Partneriaeth Twristiaeth Môn
Mr Gwynne Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig / CPRW
Dennis Evans	Cadeirydd - GCP
Ieuan Williams	Arweinydd Cyngor (Lligwy)
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf
Jac Jones	Dirprwy Gadeirydd (Menter Mechell / Carrog Renewables / Ynni Talybolion)
Bleddyn Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
John Victor Owen	Maer Caergybi
Márton Fabók	Aelod o'r Cyhoedd
Mel O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Kimberley Jones	Aelod o'r Cyhoedd
Roger Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
Aled Williams	Aelod o'r Cyhoedd
Alun Roberts	Môn CF
Anne Evans Jones	Morgan Evans & Co. Ltd.
John Pearson	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Richard Williams	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Mark Thornton	Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Pwyllgor Ynys Môn
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tony Jones	Cydgyssylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
Cai Jones	Yn cynrychioli Rhun Ap Iorwerth AC
Louise Brown	Uwch-reolwr Perthynas, Adran Ymgysylltu Ieuenctid a Chyflogaeth
Y Cynghorydd John Griffith	Talybolion
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Y Cynghorydd William Thomas Hughes	Twrcelyn
Y Cynghorydd Aled Morris Jones	Twrcelyn
Y Cynghorydd Richard Owain Jones	Twrcelyn
Andrew Clarke	Llywodraeth Cymru
Dr Tom Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes	Ynys Gybi
Clive Thomas	Ysgol Gyfun Llangejni
Geraint Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Eurwyn Hughes	Ysgol Uwchradd Bodedern
Adam Williams	Ysgol Uwchradd Caergybi

Susan Bracegirdle	Ysgol Uwchradd David Hughes
<b>Ymddiheuriadau</b>	
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Jackie Blackwell	CAB Ynys Môn
Richard Parry Jones	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
Delyth Phillips	Chwarae Teg
Y Gwir Anrh Elfyn Llwyd AS	Dwyfor Meirionnydd
Helen George	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Heidi Williams	UAC (Undeb Amaethwyr Cymru)
Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Dafydd Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian (Cadeirydd)
Y Cyngorydd G.O Jones	Llifon
Gerallt Jones	Menter Môn
Rita Lyon	Rheolwr Môn Clwstwr Môn FC
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Jeffreys	Cyfoeth Naturiol Cymru
Keith Williams	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
Alli Hunt	NSA - Niwclear
David Walden	Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Linda Wyn Jones	Cynrychiolydd Rhaglen Ynys Ynni
Cheryl Whitaker	Cynrychiolydd LIC (Gogledd Cymru) (Arsylwi)
Mark Saunderson	Cydggyngor Safle (CGS) Gorsaf Bŵer Wylfa
Iwan Williams	Taith i Waith
Y Cyngorydd Kenneth P Hughes	Talybolion
Y Cyngorydd Llinos Medi Huws	Talybolion
Angela Meadows	Dŵr Cymru
Jeffrey M Evans	Ynys Gybi
Y Gwir Anrhydeddus Albert Owen AS	Ynys Môn
Anwen Morgan	Ysgol Uwchradd Bodedern

Os gadawyd allan eich enw yn anfwriadol o'r rhestr hon neu ei fod wedi ei gofnodi'n anghywir, os gwelwch yn dda cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ar [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com)

### **Croeso gan y Cadeirydd**

- Croesawodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), bawb i'r cyfarfod. Eglurodd DE fod y cyfarfod hwn wedi ei amseru i gyd-ddigwydd â diwedd cam cyntaf ymgynghoriad Horizon â'r gymuned.

### **Ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Derbyniwyd yr ymddiheuriadau yn ysgrifenedig.

- Holodd Tom Conway, gan gyfeirio at Dudalen 7 beth oedd wedi achosi'r cynnydd yn niferoedd y gweithwyr o 6,000 i 8,500 a pha feysydd a oedd yn galw am y cynnydd? Cytunwyd y byddai Charlie Tasker yn mynd i'r afael â hyn wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.

- Gan gyfeirio at dudalen 9, holodd Jac Jones a oedd y cais yn y PLG diwethaf ar gyfer cyfarfod tebyg i'r 'PLG' gyda National Grid wedi cael ei gyflawni? Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n pasio nodyn ymlaen i National Grid.

- Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf (1af Hydref 2014) yn dystiolaeth wir a chywir o'r gweithgareddau ac fe'u cymeradwywyd gan yr aelodau.

### **Diweddariad ar yr Ymgynghoriad a'r Prosiect – Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu'r Prosiect**

- Dywedodd Charlie Tasker (CT) fod Horizon yn cynllunio i recriwtio rhagor o staff ar y safle ym Môn ac yng Nghaerloyw.
- Bu i CT atgoffa pawb y bu i gyfnod yr ymgynghoriad cymunedol cyntaf gael ei gynnal tan 8 Rhagfyr, ac felly bod cyfle'n dal i fod i'r sawl oedd am anfon adborth, ac anogodd bobl i wneud hynny. Dywedodd CT fod y digwyddiadau a gynhaliwyd ym Môn a rhannau eraill o Ogledd Cymru, oedd yn ffurfio strwythur yr ymgynghoriad, wedi cael presenoldeb da (dros 750 o bobl), gyda'r diddordeb mwyaf yn Nhregele, Cemaes, Llanfachraeth ac Amlwch. Nododd CT hefyd fod Horizon wedi trefnu digwyddiadau penodol i gasglu barn pobl ifanc a grwpiau 'anodd eu cyrraedd' eraill.
- Dywedodd CT y cafwyd adborth cadarnhaol yn gyffredinol, ac y byddai llawer o'r adborth yn ddefnyddiol iawn i Horizon fel y byddai'n parhau i ddatblygu'i gynlluniau. Roedd rhai o'r meysydd a ysgogodd sylwadau yn cynnwys y gwelliannau arfaethedig i ffyrdd lleol rhwng Y Fali a safle'r Wylfa Newydd a lleoliadau llety gweithwyr posibl.
- Eglurodd CT fod y broses o ddatblygu'r safle yn dal i gael ei thrafod, yn ogystal â'r amserlen adeiladu ac oriau gwaith posib.
- Gofynnodd Tom Conway (TC) pam fod nifer gwreiddiol y gweithwyr, sef 6000, yn awr wedi codi i 8500 – a pha bryd y byddai'r gweithwyr ychwanegol hyn yn cael eu cyflogi, a beth fyddai natur eu gwaith?
- Eglurodd mai uchafswm oedd y ffigwr o 8,500 a fyddai'n dal i gael ei adolygu wrth i Horizon ychwanegu rhagor o fanylion at y rhaglen adeiladu. Wrth ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â llety gweithwyr, dywedodd CT fod Horizon yn dal i ymchwilio i'r mater ac y byddid, yn ôl pob tebyg, yn ei gynnwys fel rhan o ail gam ymgynghoriad cymunedol Horizon.
- Trafododd CT Weithgareddau Safle. Dywedodd y byddai ymchwiliadau safle'n dod i ben yn Ionawr ac y byddai'r prif sylw'n troi at ailsefydlu tir a thyllau turio. Dymchwelwyd nifer o adeiladau anniogel yn ystod yr wythnosau diweddar, yn cynnwys Tŷ Banner, Cafnan, Bryn Tirion,

Parc Lodge a Bronydd. Eglurodd hefyd y bydd Scottish Power Energy Networks yn gwyro ceblau pŵer presennol sydd ar hyn o bryd yn croesi'r safle.

- Dywedodd CT y cynhelir arolygon traffig a chludiant ar hyd yr A5025, Lôn Cemlyn a Lôn Nanner. Eglurodd y byddai rhan o gynllun safle arfaethedig Horizon yn golygu y byddai'n rhaid cau Lôn Cemlyn maes o law, ac felly byddai'n rhaid gwella Lôn Nanner fel y brif ffordd fynediad i Fae Cemlyn.
- Eglurodd CT fod Horizon wedi arwyddo cytundeb gyda'r Swyddfa dros Reoli Niwclear sy'n caniatáu iddynt barhau i brynu Eitemau 'Amseroedd Arwain Hir' – deunyddiau angenrheidiol ar gyfer Wylfa Newydd roedd yn rhaid eu harchebu nifer o flynyddoedd ymlaen llaw ar gyfer pryd y byddai eu hangen ar y safle.
- Mae Asesiad Dyluniad Generig o UADB (Uwch Adweithydd Dŵr Berw) y DU yn parhau.
- Trafododd CT dwf y cwmni. Eglurodd fod nifer y staff ar y safle wedi cynyddu'n gyflym a'i fod erbyn hyn dros 30. Dywedodd y bydd angen i Horizon efallai gael cymaint â 100 o bobl yn swyddfa'r safle erbyn diwedd 2015. Dywedodd CT fod y niferoedd yn cynyddu ym mhrif swyddfa Horizon yng Nghaerloyw ac fe atgoffodd yr aelodau yr hysbysebwr yr holl swyddi lleol newydd ar y wefan, yn y papurau lleol, a'u bod yn cael eu hyrwyddo drwy ffrwd Twitter y cwmni.
- Dywedodd CT fod Rhaglen Beilot Parodrwydd Busnes Lleol wedi dechrau helpu busnesau lleol i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a gynigir gan Brosiect Wylfa Newydd. Cadarnhaodd fod Horizon yn trafod hyn gydag Ynys Ynni a Llywodraeth Cymru i sicrhau y byddai busnesau lleol yn rhan o fentrau fel hon.
- Dywedodd CT fod Horizon yn derbyn llawer o geisiadau i gefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gan fod Polisi Elusen a Nawdd yn awr wedi ei gyhoeddi ac ar gael i bawb ar wefan Horizon. Ar gael hefyd mae dogfennau cyngor ac arweiniad i'r sawl sy'n dymuno gwneud cais am gefnogaeth.
- Eglurodd CT fod asesu'r effaith gaiff y prosiect ar yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol ac y byddai cam nesaf y broses hon yn dechrau yn y flwyddyn nesaf. Bydd Rhaglen Ynys Ynni yn penodi aelod amser llawn i gefnogi'r wedd hon o waith Horizon. Trafododd hefyd yr effaith ar wasanaethau iechyd lleol gan ddweud y byddai Horizon yn asesu'r anghenion ar gyfer gofal iechyd o ddydd i ddydd ac mewn argyfwng ar ac oddi ar y safle, gan fod cyrraedd Ysbyty Gwynedd ar y ffyrdd yn cymryd cryn amser mewn achos o argyfwng.
- Gofynnodd TC sut y byddai Horizon yn sicrhau y byddai'r swyddfa bost a'r banc yn dal yn hygyrch i'r cyhoedd a'r gweithwyr yng Nghemaes pan fyddai'r nifer o weithwyr yn dechrau cynyddu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Gwnaeth y sylw hefyd nad oedd wedi sylwi ar weithwyr yn y pentref yn defnyddio cyfleusterau manwerthu'r ardal.

- Dywedodd CT nad oedd Horizon wedi ystyried hyn ond eu bod yn ymwybodol ei fod yn fater y dylid rhoi sylw iddo.
- Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones i CT amlinellu strategaeth Horizon ar hyn o bryd yng nghyd-destun ambiwlansys. Byddai'n amhosibl i'r adnoddau ambiwlans presennol ddelio ag 8000 o weithwyr. Ychwanegodd fod yna giw aros o 4 awr y tu allan i Ysbyty Gwynedd neithiwr.
  - Eglurodd CT eu bod wedi dechrau trafodaethau gyda'r holl wasanaethau argyfwng a bod cyfarfodydd wedi'u cynnal eisoes ers sawl blwyddyn er mwyn mynd i'r afael â materion fel hyn. Roedd yna nifer o atebion gwahanol i'r broblem hon allai gynnwys cefnogaeth Horizon i ddarparwyr gofal iechyd y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Mynegodd y Cynghorydd William Hughes ei bryderon ynglŷn â gallu'r meddygfeydd lleol i ymdopi â'r cynnydd yn niferoedd y gweithlu, oherwydd nid y gweithwyr yn unig y byddai'n rhaid eu hystyried ond eu teuluoedd yn ogystal. Gofynnodd a oedd yna unrhyw gynlluniau i ehangu'r meddygfeydd, fel na allai'r mewnlifiad o weithwyr gael effaith ar argaeledd y meddygfeydd i'r bobl leol.
  - Dywedodd CT y byddai gwaith Asesu'r Effaith ar Iechyd a Reolir gan Horizon yn delio â'r mater penodol yma ac yn sicrhau sefydlu strategaeth lliniaru i osgoi anhwylystod i unrhyw leihad yn narpariaeth y gwasanaeth ar gyfer pobl leol.
- Dywedodd y Cynghorydd John Griffith y bu i gyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn gael ei gynnal rai misoedd yn ôl i drafod argymhellion yr adran gynllunio ar gyfer eu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n dangos sut y mae'r Awdurdod Cynllunio yn delio â phroses cais cynllunio ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Gofynnodd a ydy Horizon yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac a yw'n bwriadu gwneud hynny?
  - Eglurodd CT fod y Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffactor bwysig iawn o ran dull Horizon o ddatblygu Wylfa Newydd ond na fyddai'n bosibl glynu air am air wrth y canllawiau bob amser. Mae'n amlwg y byddai o fudd i Horizon wneud hynny er mwyn ei alluogi i gyflymu'r broses gynllunio. Yr her fwyaf i Horizon ei goresgyn fyddai petai'r teimladau a ddangoswyd gan y bobl leol yn ystod y broses ymgynghorol yn arwyddocaol wahanol i'r hyn a ddatganwyd yn y CCA.
- Ychwanegodd y Cynghorydd Aled Morris Jones fod y CCA wedi eu datblygu yn dilyn ymgynghori â'r bobl leol ac roedd hi'n galonogol fod Horizon hefyd yn ymgynghori ynglŷn â'u cynlluniau cynnar. Cydnabu y byddai trafodaethau trylwyr rhwng y Cyngor Sir a Horizon, ond yn y pen draw mae'n berthynas gadarnhaol ac er gwaetha'r anghytundebau anorfod o dro i dro, fe ddatrysir y materion trwy drafodaethau aeddfed a chlir.

Dywedodd Mark Thornton (MT) o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru fod angen i Horizon ddatblygu perthynas gyda Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, sy'n dal y Bwrdd Iechyd Lleol i gyfrif.

- Dywedodd Jac Jones (JJ) fod teimlad fod Llanfechell, fel cymydog agos, wedi cael ei methu yn ystod PAC1.
- Ymholodd John Chamberlain (JC) am y cyflenwad dŵr gan ofyn a fyddai angen ail beiriannu'r seilwaith dŵr lleol. Gofynnodd hefyd beth fyddai'n digwydd o ran cael gwared â sbwriel a gweithfeydd carthffosiaeth. Gofynnodd JC hefyd am y llwch fyddai'n cael ei greu gan ofyn a ddefnyddid dŵr môr i gadw'r llwch i lawr. Yn olaf, gofynnodd pam bod Horizon yn adfer tir am gost uchel ar y drymlinau ar ôl y gwaith ymchwiliadau tir, pan roedd y drymlinau am gael eu tynnu oddi yno beth bynnag?
  - Dywedodd CT y byddai astudiaethau'n cael eu cynnal i ddeall anghenion cyflenwad dŵr y prosiect. Dylai'r galw o'r orsaf bresennol leihau wrth iddi gyrraedd ei chyfnod dadgomisiynu, tra bydda'r galw mwyaf o Wylfa Newydd yn ystod prif gyfnod yr adeiladu. Dywedodd CT ei fod yn gobeithio y byddai Dŵr Cymru yn gallu cyflenwi'r cyfan fyddai ei angen, ond pe gwelid na allai gyflawni hynny, byddai opsiynau eraill yn cael eu hystyried maes o law
  - Ychwanegodd eu bod ar hyn o bryd yn ystyried y gwaith carthffosiaeth a'i bod yn debygol y byddid yn defnyddio cyfleusterau dros dro, hunangynhaliol yn ystod y cyfnod adeiladu.
  - Hyd yma ni thrafodwyd lliniaru llwch yn ystod y gwaith adeiladu, ond roedd y tebygolrwydd o ddefnyddio dŵr môr yn isel, oherwydd peryglon cyrydiad.
  - Eglurodd CT y byddai'r tir sy'n cael ei adfer ar gael i ffermwyr lleol er mwyn i anifeiliaid gael pori ac ati gan fod y gwaith adeiladu rai blynyddoedd i ffwrdd o hyd.

**Rhaglen Addysg a Hyfforddiant Wylfa Newydd – Mark Tippett, Pennaeth Dysgu a Datblygu a Claire Burgess, Cydlynnydd Rhaglen Addysg**

- Dywedodd Mark Tippett (MT) y byddai'n siarad am brentisiaethau a phrifysgolion, hyfforddiant a sgiliau. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig ystyried y byddai cyfleoedd o ran sgiliau, hyfforddiant ac addysg ar gael i bobl o bob oed o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd ond y byddai pwyslais cyflwyniad heno ar rai o'r mentrau a gyflwynodd Horizon eisoes i gefnogi addysg a hyfforddiant pobl ifanc.
- Eglurodd MT y byddai amrywiaeth o swyddi ar gael, o staff gweithredol yr orsaf bŵer i'r gadwyn gyflenwi leol, ac y byddai cyfleoedd wrth weithio i ddysgu sgiliau ac ennill cymwysterau.
- Eglurodd MT fod Horizon wedi cynnal deialog gweithredol a chadarnhaol â Choleg Menai. Mae yna Femorandwm Dealltwriaeth rhwng y Coleg a Horizon sy'n caniatáu iddynt drafod, yn agored ac mewn ymddiriedaeth, lawer o agweddau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posib ar gyfer myfyrwyr a chymunedau lleol.

- Amlinellodd MT berthynas Horizon â nifer o brifysgolion. Dywedodd bod yna berthynas rhwng Horizon a Phrifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Maent hefyd yn gweithio ar ddatblygu cysylltiadau â Phrifysgol Abertawe yn gynnar yn y flwyddyn nesaf. Dewiswyd y prifysgolion oherwydd eu bod yn cynnig cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ynni niwclear a bod dewis sefydliadau Cymreig wedi bod yn ffactor bwysig hefyd.
- Eglurodd MT fod yna hefyd Femorandwm Dealltwriaeth rhwng Horizon â Phrifysgol Bangor, fel y gallent drafod yr holl faterion, gwneud gwaith ymchwil a chynnig cyfleoedd lleoliad gwaith i israddedigion. Yn ogystal, mae gan Fangor amrywiaeth o bynciau perthnasol, megis Cemeg, Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianeg, pynciau y mae yna brinder arbenigedd cyffredinol ledled y DU. Y manteision a gyflwynir gan Glyndŵr yw ei gysylltiadau â pheirianeg sifil, tra bo gan Brifysgol Caerdydd adran beirianeg o fri.
- Yn 2015 bydd Horizon yn helpu Hitachi i greu cysylltiadau â Phrifysgol Bangor, a bydd Horizon yn gyfrifol am seminar, digwyddiadau gyrfaedd ac yn cynyddu eu presenoldeb yno.
- Trafododd MT y berthynas â Magnox, a phontio gweithwyr. Dywedodd eu bod yn ystyried defnyddio gweithwyr presennol Magnox i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr ar gyfer Wylfa Newydd. Felly, er gwaethaf dadgomisiynu, fe fydd bywyd newydd i rai o'r gweithwyr yno. Dywedodd hefyd bod yna ddi-ddordeb yn sut mae Magnox yn hyfforddi eu staff a sut y maent yn gallu cadw cymaint o'u staff. Gellir ymgorffori'r dysgu hwn yng nghynlluniau Horizon.
- Eglurodd MT fod dewis y fframwaith prentisiaeth gywir yn hanfodol bwysig. Y cynllun yw defnyddio'r Brentisiaeth Pŵer Lefel Uchel pedair blynedd oherwydd bod tystiolaeth fod hyn wedi arwain at gadw pobl yn y diwydiant ynni a symud i swyddi uwch. Y bwriad yw dechrau hyn yn 2016, gyda'r broses recriwtio i ddechrau yn Hydref 2015. Dywedodd MT y byddai'n her i ganfod y ffordd orau i weithredu'r brentisiaeth heb allu cynnig hyfforddiant mewn swydd yn y blynyddoedd cynnar.
- Gofynnodd Jane Jones sut roedd Horizon yn cynllunio i ddod â phobl ifainc yn eu holau i Ogledd Cymru os oeddynt eisoes wedi gadael am brifysgolion mewn rhannau eraill o'r wlad neu'r DU. Hefyd, a yw Horizon yn bwriadu recriwtio pobl yn gynnar yn eu gyrfaedd prifysgol?
  - Dywedodd MT mai maint y prosiect fyddai'r prif atyniad, yn ogystal â'r ffaith fod y diwydiant niwclear yn gallu cynnig swyddi hirdymor gyda chyflogau da. Dywedodd fod Horizon yn gobeithio cynnig swyddi haf i fyfyrwyr neu gynnig lleoedd i fyfyrwyr sydd â blwyddyn rhyngosod fel rhan o'u cwrs.
- Dywedodd Susan Bracegirdle eu bod ar hyn o bryd yn llenwi ffurflenni UCAS yn Ysgol David Hughes, ac o'r 110 myfyriwr yn y chweched uchaf, gyda thua 95 ohonynt yn bwriadu mynd i'r brifysgol, dim ond tua 8 o'r rhain oedd wedi gwneud cais i ddilyn cwrs yn ymwneud â

pheirianeg. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod yr ysgol yn gwneud ei gorau i annog y math yma o yrfa a bod adran wyddoniaeth yr ysgol yn un gref iawn. Awgrymodd hi mai'r rheswm am hyn oedd fod llawer yn gweld prentisiaethau fel yr unig gyfle a bod llawer o'r prentisiaethau hynny ond yn talu £2.50 yr awr. Nid yw gweithio o 9 tan 5 am y fath gyflog yn ddyfodol deniadol i fyfyrwyr.

- Dywedodd MT fod yna lawer o fathau gwahanol o brentisiaethau, gyda chyflogau amrywiol, ond fod meincnod y diwydiant yn un hael. Ychwanegodd fod y ddyled sy'n gysylltiedig â mynd i brifysgol yn ddylanwad ar rai pobl, yn enwedig gan fod rhai o'r prentisiaethau hyn yn caniatáu i chi astudio ac ennill cymhwyster wrth weithio, fel eich bod mewn gwirionedd yn cael eich talu i ennill gradd. Roedd MT yn cydnabod ei bod hi'n bwysig hyrwyddo'r pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg).

### **Rhaglen Addysg a Hyfforddiant Wylfa Newydd - Claire Burgess – Cydlynnydd Rhaglen Addysg**

- Eglurodd Claire Burgess (CB) ei bod wedi ei phenodi'n brif berson Horizon o ran eu gwaith ag ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Dywedodd CB mai ei nod oedd, yn gyntaf, i gywain gwybodaeth am y rhaglenni presennol a defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod cyfleoedd posib i Horizon weithio'n agosach ag ysgolion lleol.
- Pwysleisiodd y byddai unrhyw Raglen Addysg newydd a gyflwynid gan Horizon yn ategu'r hyn oedd eisoes yn bod yn nhermau'r cwricwlwm presennol ac na ddylid dyblygu unrhyw beth oedd eisoes ar gael o ffynonellau eraill.
- Trafododd CB rai o'r digwyddiadau diweddar y bu i Horizon gymryd rhan ynddynt, megis digwyddiad Sgiliau Cymru yn Venue Cymru ym mis Hydref, a Rhaglen Profi mewn partneriaeth â Pontio, Prifysgol Bangor, Santander a Magnox.
- Trafododd CB Her Peirianeg Ysgolion Cynradd Magnox, a noddir gan Horizon. Roedd chwech o ysgolion cynradd yno gyda'r dasg o ddatblygu tyrbinau gwynt a gweithio gyda phrentisiaid Magnox. Pwrpas y digwyddiad oedd dangos y gallai gyrfa mewn peirianeg fod yn ddiddorol a chyffrous.
- Siaradodd CB am ddatblygiadau'r dyfodol. Cynhelir un o ffeiriau Big Bang Cymru yn Venue Cymru yn 2015. Bydd Horizon yn noddi un o'r sioeau, yn noddi gwobr, yn arddangos ar stondin ac yn rhoi cyflwyniad i'r bobl ifanc fydd yno.
- Yn y Flwyddyn Newydd, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ag athrawon a bydd perthynas bresennol Horizon â Menter Môn yn cael ei datblygu ymhellach.



## Cwestiynau ac Atebion

- Dywedodd Adam Williams (AW) fod prifathrawon ym Môn yn pryderu ynghylch y buddsoddiad enfawr yn Coleg Menai ond bod ysgolion yn cael eu hanghofio, lle mae'r adnoddau yn hen ac yn methu ysbrydoli myfyrwyr. Ychwanegodd fod hon yn broblem mewn ysgolion cynradd hefyd. Dywedodd AW fod tair geneth o'r chweched dosbarth wedi cymryd rhan mewn cystadleuaeth Cemeg yn ddiweddar, ac wedi ennill yn y rownd ranbarthol, er gwaetha'r ffaith nad oedd ganddynt unrhyw brofiad o weithio gyda rhai o'r offer, ac nad oedd yr ysgol hyd yn oed yn gallu ffordd cotiau labordai iddyn nhw fynd i'r digwyddiad. Dywedodd fod hyn yn dangos fod y potensial yno o ran gallu myfyrwyr lleol ond fod angen dirfawr i fuddsoddi yn eu hoffer a'u cyfleusterau.
  - Dywedodd MT fod Horizon yr un mor ymroddedig i gefnogi ysgolion ag ydoedd i gefnogi Coleg Menai – ond roedd hwn yn bwynt dilys a diddorol a ddylai fod yn bwnc i'w drafod ymhellach rhwng yr ysgolion â Horizon.
  - Ychwanegodd CB y byddai'n cyfarfod AW a phrifathrawon eraill i drafod buddsoddi a chyfleoedd eraill i Horizon weithio'n agosach â'r ysgolion.
- Dywedodd David Hughes ei fod yn pryderu oherwydd y cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer prentisiaethau crefftau adeiladu megis plastro etc.
  - Dywedodd CT y byddai'r sefyllfa yn newid unwaith y byddai Horizon yn dechrau deall i ba raddau y bydd angen medrau a chrefftau penodol ar y prosiect. Byddai'r farchnad yn adweithio, a chyda chefnogaeth Horizon a'i brif gontractwyr, byddai'n dechrau buddsoddi rhagor trwy gynnig y mathau hyn o gyfleoedd. Roedd Coleg Menai, eto gyda chefnogaeth Horizon, eisoes yn gweithio i gynnig prentisiaethau mewn adeiladu gan ddefnyddio offer a gyflenwyd gan Hitachi. Roedd yn gobeithio y byddai pobl leol yn parhau i ehangu a choethi eu sgiliau fel y gallent chwarae rhan bwysig yng ngwaith adeiladu Wylfa Newydd.
- Dywedodd Kim Jones (KJ) fod yna brinder amlwg o bobl ifanc yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Prosiect. Gofynnodd beth oedd Horizon yn ei wneud i geisio denu rhagor o bobl ifainc o'u hoed hi i'r cyfarfodydd hyn, ac o ran ymgysylltu â phobl ifanc a'u rhieni? Dywedodd ei bod yn bwysig eu bod yn ymgysylltu â'r prosiect oherwydd mai pobl ifanc heddiw fydd y rheolwyr yn y dyfodol.
  - Dywedodd CT fod hwn yn gwestiwn dilys a theg ac y byddai Horizon yn parhau i chwilio am ffyrdd i gynnwys pobl ifanc yn well. Efallai nad cyfarfod tebyg i'r Grŵp Cyswllt Prosiect yw'r ffordd orau i ennyn brwdfrydedd pobl ifainc ynglŷn â'r Prosiect gan nad yw'r fformat efallai'n ddiddorol iddynt. Mae yna wefan newydd wedi ei lansio ar gyfer y Grŵp Cyswllt Prosiect ac efallai fod cyfathrebu ar-lein yn ffordd fwy priodol i bobl ifanc gael gwybodaeth am y Prosiect. Hefyd dylid gofyn iddynt pa fformat fyddai orau ganddynt i'w defnyddio oherwydd efallai'n byddai'n well ganddynt ddefnyddio Facebook neu fformatau cyfryngau cymdeithasol eraill yn hytrach na chyfarfodydd arferol.

- Ychwanegodd KJ ei bod yn mwynhau dod i'r cyfarfodydd hyn i gael clywed barn pobl hŷn ac y dylai Horizon ganfod ffordd i integreiddio pobl iau a phobl hŷn i fod yn un fforwm. Byddai'n drueni hollti'r ddau grŵp a byddai o fudd i'r ddau grŵp gael mwy o gymysgedd o'r cenedlaethau. Dywedodd hefyd ein bod heno wedi siarad llawer am gael gweithio â'r colegau a'r ysgolion uwchradd ond dod oedran ysgolion cynradd yn bwysicach fyth. Yn yr ysgol gynradd y mae plant yn dechrau ffurfio syniadau ynglŷn â beth maent yn dymuno ei wneud yn y dyfodol a byddai annog y syniadau hyn yn gynnwys yn eu datblygiad yn beth da.

- Dywedodd JV Owen (JO) mai ei bryder mwyaf ef oedd nad oedd digon o bobl hyd yma yn sylweddoli pwysigrwydd mawr y prosiect i Fôn, a'i bod yn bwysig pwysleisio i bobl y byddai'r Wylfa Newydd hon o fudd i'w plant a'u hwyrion am genedlaethau lawer i ddod. Dywedodd y byddai busnesau'n elwa ac y byddid yn creu prentisiaethau a byddai'n rhaid i Horizon sicrhau bod pobl yn sylweddoli hyn.
- Gorffennodd DE trwy ddweud y byddai'r prosiect hwn yn denu gweithwyr o galibr uchel a'i fod yn gobeithio y byddai plant heddiw yn gallu cystadlu am y cyfleoedd a ddeuai. Diolchodd i bawb am eu cyflwyniadau gwerthfawr ac am y cwestiynau da a godwyd o'r llawr.

### **Unrhyw Fater Arall**

- Nid oedd unrhyw fater arall.

### **Cloi**

- Diolchodd DE i bawb unwaith eto am ddod ac am eu cwestiynau. Dywedodd fod y cyfarfod wedi bod yn un calonogol a'i fod yn gobeithio gweld mwy o bobl ifanc yn bresennol yn y dyfodol. Mae gan bob aelod gyfrifoldeb am geisio'u denu.
- Atgoffodd DE yr aelodau fod ganddynt tan yr 8fed o Ragfyr i gynnig adborth fel rhan o gam cyntaf ymgynghoriad Horizon â'r gymuned.
- Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm